**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Tachwedd 2024 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Is-Gaderiydd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Alan Henson, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies , Hywel Ifans, Dan Evans

1. **YMDDIHEURIADAU** Melinda Williams, Harry Williams

2. **PERSONOL - Dim materion personol**

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
   i.A240748- Bro-ystrad, Ystrad Aeron,
   ii.A240766 - Bryn Mair, Betws Bledrws :

4. **CADARNHAU COFNODION 08/10/024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

   **12.c. Bont Glanafon. (666358)** Derbyniwyd neges ffôn wrth David Rees Technegydd Cyngor Sir Ceredigion ar 18/10/24 yn cadarnhau y bydd elod o'r tîm yn mynd I archwilio'r bont cyn bo hir.

   **11. Ymgysylltu â Phobl Hŷn.** Trefnwyd i Age Cymru i ddod i Fore Coffi yn Ysgol Cribyn ar 21ain Ionawr 2025. Y Clerc wedi trafod gyda'r Gymdeithas yn Dihewyd ac yn aros i gadarnhau dyddiad. Angen trefnu dyddiad ar gyfer Felinfach.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR:** Y Cyng. Ceris Jones ar famolaeth.

7. **CYLLID**

   a. Tal y Clerc mis Hydref £217.84
   b. Siec Stuart Akkermans **£250.00** wedi'iddychwelyd oherywdd nad oedd yr enw'n gywir. Cyflwynwyd siec arall iddo.
   c. Cymdeithas y Cymod Cost Pabis Gwyn £30 + £5 o gyfraniad tuag at yr achos yn ôl ein harfer. Cyfanswm o £**35.00**
   d. Torchau RBL 2 x 20 = **£40**
   e. Jac Jenkins Gweinyddu'r wefan **£274.36**
   f. Llythyr gan Banc Lloyds yn nodi ei fod yn newid y cyfrifon i Community Accounts o'r 14eg o Ionawr 2025. Cyfanswm y newidiadau am y flwyddyn bydd £**135.78**. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r siom am benderfyniad y banc, **penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn ymchwilio i gyfrifon gan sefydliadau ariannol eraill.

8. **SWYDD TORRI PORFA**
Yn dilyn cais gan Eifion Evans y Prif Weithredwr am gymorth y cynghorau i arbed arian ac yn dilyn trafodaeth hir am gyfrifoldebau ychwanegol a fyddai gan y Cyngor Cymuned, cynigiodd y Cyng. Glyn Davies ein bod yn gadael pethau fel y ma' nhw am y tro. Eiliwyd gan y Cyng. Dan Evans a derbyniwyd yn unfrydol.

9. **CYNLLUNIO**
    a. A240748- Bron-ystrad, Ystrad Aeron. Penderfynwyd cefnogi.
    b. A240766 - Bryn Mair, Betws Bledrws. Penderfynwyd cefnogi

10. **GOHEBIAETH**

    I. Derbyniwyd neges gan Leighton Jones o Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei fod wedi derbyn y llythyr ynglŷn â'r newidiadau i'r ffiniau.

11. **UNRHYW FATER ARALL**

    I. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr o ddiolch i Celia a Mattie Evans am greu'r torchau pabis gwyn.
    II. **Bocs blodau Temple Bar.** Y trigolion wedi cynnig cymryd gofal dros y bocs.
    III. **Hewl Capel/Eglwys/Neuadd Dihewyd**. Cododd y Cyng. Hywel Ifans ei bryder unwaith eto ynglŷn â diogelwch y ffordd hon o ran cyflwr yr hewl a'r diffyg golau stryd. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i godi y materion hyn unwaith eto.
    IV. **Di-wifr Neuaddau Pentref**. Gan fod cynnig mynediad at gyfarfodydd hybrid yn statudol erbyn hyn, cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut orau oedd fynd ati i sicrhau cydymffurfiaeth yn ein cyfarfodydd ni a beth fyddai rôl y Cyngor wrth gefnogi'r neuaddau. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, penderfynwyd byddai'r Cyng. Hywel Ifans yn cysylltu â chwmni lleol sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn ac yn adrodd nôl yn ein cyfarfod nesa.
    V. **Padiau Diffib.** Penderfynwyd trafod yn y cyfarfod nesa.
    VI. **Ymgynghoriad Cae Chwarae Felinfach.** Derbyniwyd manylion am y gwaith draenio arfaethedig. Bydd cyfle i weld y cynlluniau a'u trafod ar y 19eg o Dachwedd yn y Pafiliwn. Bydd angen cyflwyno sylwadau am y gwaith erbyn y 5ed o Ragfyr i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir.
    VII. **Pafin Felinfach**. Codwyd pryder un o drigolion Felinfach gan y Cyng. Haf Hughes parthed diffyg pafin o 'stâd Maes y Trên i'r garej. Atgoffwyd y Cyngor gan y Cyng. Lynford Thomas bod y mater hwn wedi codi droeon a'r un yw'r ateb gan y Cyngor Sir a hynnyw yw i gerddwyr ddefnyddio'r pafin yr ochor arall sy'n rhedeg hyd y pentre'.

12. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Rhagfyr 10fed Neuadd Felinfach**